CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, **NOS LUN 3ydd o CHWEFROR 2020** a gynhelir am 6.30y.h., yn Ystafell Athrawon, Ysgol y Graig, Llangefni.

PRESENNOL : Cyng. Margaret Thomas – Cadeirydd
Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. E. Gwyndaf Jones
Cyng. John Lee
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. Christine Roberts.
Cyng. Terry Jones
Cyng. Jamie Jones
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. Richard Parry

HEFYD YN BRESENNOL : Mr. Rhys Parry - Clerc
Ms. Linda Powell - Cymorthydd Clerigol
Cyng. Dylan Rees - Cynghorydd Sir.

Cadeirydd yn croesawu ac yn diolch i'r Aelodau am eu presenoldeb unwaith eto i'r lleoliad dros dro, sef Ysgol y Graig, Llangefni.

19/253 YMDDIHEURIADAU : Cyng. Ieuan G. Davies Cyng. Victor Hughes
Cyng. Llinos G. Jones Cyng. Non W. Parry
Cynrychiolydd Heddlu Gogledd Cymru.

19/254 DATGANIAD O DDIDDORDEB : Cyng. Jamie Jones – Eitem 19/255.2
Clwb Pêl Droed, Llangefni.

19/255 HEDDLU GOGLEDD CYMRU - Dim Cynrychiolwyr – Cadeirydd yn cadarnhau, oherwydd bod PCSO 2593 ddim ar ddyletswydd 03.02.2020, gofynnwyd i'w chyd-weithwyr fynychu'r Cyfarfod – ond doedd neb ar gael.
Cadeirydd yn esbonio fod e-bost wedi ei dderbyn yn y Swyddfa gan Swyddogion PCSO's, yn datgan, oherwydd bod mwy o doriadau o fewn yr Orsaf Heddlu, bydd dim Cynrychiolwyr yn bresennol yn rheolaeth yng Nghyfarfod Llawn y Cyngor Tref.

1 **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol o gwmpas y Dref -** Yn dilyn Cyfarfod 17.01.2020, i drafod y mater uchod, Cadeirydd yn adrodd fod Adroddiad wedi ei baratoi gan Reolwr Clwb Pêl Droed Llangefni, sydd yn cyfeirio at faterion o ymddygiad gwrthgymdeithasol o gwmpas y dref a'r Parc Sglefrio. Adroddiad ar gael yn y Swyddfa i'w arolygu.
Cyng. John Lee yn tynnu sylw fod y llinellau gwyn/melyn o gwmpas lôn Ffordd Glandŵr wedi pylu. Cadeirydd yn datgan fod hyn yn fater i Adran Priffyrdd, Cyngor Sir Ynys Môn, ac nid yr Heddlu. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc dynnu hyn i sylw'r Adran Priffyrdd.

2 **Lloches - Cae Pêl Droed, Lon Talwrn, Llangefni -** Cyng. Terry Jones yn adrodd fod amser wedi mynd heibio a dim llwyddiant i ddod o hyd i safle addas i ail-leoli'r Lloches. Cyng. John Lee yn awgrymu safle ar Faes Parcio Neuadd y Dref, o fewn golwg y Camerâu CCTV. Cyng. Dylan Rees yn adrodd fod cwynion wedi eu derbyn mewn Cyfarfod Cyhoeddus fod y Lloches yn achosi problemau ar y safle uchod, a'r Clwb Pêl Droed yn awyddus i gael ei ail-leoli. Cadeirydd yn adrodd fod PCSO C3915 mewn cysylltiad gyda Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn i edrych ar safle derbyniol o fewn y dref i ail-leoli'r Lloches ac yn rhyngweithio gyda phobl ifanc i gael eu mewnbwn hefyd ynglŷn â'r uchod.
Cyng. Jamie Jones yn awgrymu safle ger Plas Arthur i ail-leoli'r Lloches a'i fod yn cefnogi Adroddiad Rheolwr Clwb Pel Droed yn ymwneud ac ymddygiad gwrthgymdeithasol o gwmpas y Parc Sglefrio a'r dref.
PENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc gysylltu gyda'r PCSO i holi am y sefyllfa ddiweddaraf.

PARHAD
19/255

Cadeirydd yn ychwanegu fod yr Heddlu wedi trefnu Gweithdy i bobl ifanc yn ystod Mis Hydref llynedd, Chwefror eleni a hefyd, gobeithio ar gyfer Gwyliaf Haf 2020, a'r Prosiect wedi derbyn cefnogaeth y Cyngor Tref.
Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan fod Menter Môn wedi cyflogi dau Swyddog yn Fis Ionawr i gymhorthi gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol o gwmpas y dref ac yn awgrymu i ddisgwyl am gyflwyniad a chanlyniadau Menter Mon ar hyn. **Derbyn.**

19/256 **I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN 20.01.2020**

Cyng. John Lee yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.

19/257 **I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 20.01.2020**

1 **Eitem 19/223 - Heddlu -** Cyng. J. Egryn Lewis yn holi ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf yn dilyn ei siom fod dim Heddlu yn gweithredu yn Orsaf Heddlu Llangefni i dderbyn cwynion a'r angen i ddod a hyn i sylw'r Arolygydd Lleol. Cyng. Dylan Rees yn cadarnhau ei fod am ddod a'r mater i sylw'r Panel Liaison N.W.P. & C, yn y cyfarfod nesaf. **Derbyn.**

2 **Eitem 19/224 – Cyfarfod Adfywio Llangefni –** Cadeirydd yn cadarnhau fod y Cyfarfod nesaf wedi ei drefnu ar gyfer Nos Fawrth 11.02.2020.

3 **Eitem 19/225.2 - Ystâd Parc y Coed -** Cyng. Gwyndaf Jones yn awgrymu cylchredeg y ddogfen - Canllawiau Cynllunio Cytundeb Adran 106 – Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Mon, i'r Aelodau, er gwybodaeth/sylw. **PENDERFYNWYD** anfon y Ddogfen ymlaen at Aelodau Is-bwyllgor Cynllunio gyda chopi ar gael yn y Swyddfa i'r Aelodau eraill i'w arolygu.

4 **Eitem 19/257.1 – GDPR – Rheolau Diogelu Data Cyffredinol –** Clerc yn adrodd fod Cyfleusterau ar gael yn y Swyddfa ar Ddydd Iau i Aelodau gwblhau'r Hyfforddiant Ar Lein.

5 **Eitem 19/257.2 - System Draenio, Ystâd Parc y Coed -** Cyng. Dylan Rees yn adrodd fod e-bost dyddiedig 22.01.2020 wedi ei dderbyn gan Gyngor Sir Ynys Mon ac yn atodol i Becyn y Rhaglen Llawn yn cadarnhau fod amodau'r system draenio mewn lle.

6 **Eitem 19/257.3 – Ardal Nant y Pandy/Dingle –** Cyflwyniad gan Swyddogion Cyngor Sir Ynys Mon – Cyfarfod Llawn Mis Mawrth.

7 **Eitem 19/257.4 – Ehangu'r Fynwent –** Cadeirydd yn cadarnhau fod Cyfarfod wedi ei drefnu 11.02.2020 gyda Swyddogion Cyngor Sir Ynys Mon i geisio symud ymlaen ynglŷn â ehangu'r Fynwent. Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan pryder fod gwendidau o fewn y Cyngor Sir, oherwydd dim adrodd yn ôl gydag adborth ac wedi gwrthod awgrymiadau safleoedd y Cyngor Tref. Cyng. Lewis yn pwysleisio'r pwysigrwydd o gael cefnogaeth y Cyngor Sir. Cyng. Gwyndaf Jones yn adrodd fod gan y Cyngor Sir Gynllun Datblygu ar gyfer Mynwentydd ac i ystyried yn ofalus yr opsiwn o Bryniant Gorfodol. Cyng. Jones yn awgrymu gofyn i'r Cyngor Sir am amserlen i gyflwyno Cais Cynllunio a.y.b. Clerc yn arwain yr Aelodau trwy gefndir lleoliad tir a chyfarfodydd yn y gorffennol rhwng Dirprwyo'r Cyngor Tref a Swyddogion y Cyngor Sir ac yn cadarnhau fod Swyddogion y Cyngor Sir wedi awgrymu safle o fewn ymylon y dref. **PENDERFYNWYD** rhoi gwadd i Cyng. Gwyndaf Jones fynychu'r Cyfarfod 11.02.2020, gyda Swyddogion y Cyngor Sir.

8 **Eitem 19/257.5 – Defnydd o Gae Chwarae, Lon Newydd –** Cadeirydd yn adrodd fod awgrym i Glybiau Pel Droed Llangefni uno gyda'i gilydd a defnyddio'r un cyfleusterau. Oherwydd bod Cytundeb mewn lle gyda Chlwb Pel Droed Ieuenctid hyd at Fis Awst 2020, bydd angen cyngor cyfreithiol cyn symud ymlaen. **Derbyn.**
Cyng. Huw Owen yn awgrymu i'r Cyngor Tref ffurfio Cytundeb newydd fel y Tenant, i'w chymeradwyo gan y Cyfreithiwr.
Cyng. Jamie Jones yn adrodd fod un Clwb gyda thrafferthion cael safle i chwarae Gemau

PARHAD
19/257

Pel Droed ac yn awgrymu un Cytundeb i'r Timau weithio gyda'i gilydd. Cadeirydd yn awgrymu derbyn cyngor cyfreithiol ar y mater uchod cyn dod i unrhyw benderfyniad. **Derbyn.**

19/258 I DDERBYN ARGYMHELLION IS-BWYLLGOR Y FYNWENT A MEYSYDD CHWARAE 15.01.2020

Cadeirydd yn adrodd fod y Cyfarfod uchod wedi ei ohirio. Dyddiad Cyfarfod nesaf o'r Is-bwyllgor uchod ydyw Nos Fercher 25ain o Fawrth 2020.

19/259 I DDERBYN PENDERFYNIADAU IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO 22.01.2020

Aelodau yn tynnu sylw at Ymgynghoriad Cynllunio OP/2019/10 - Cais amlinellol ar gyfer codi 9 annedd fforddiadwy ynghyd ag adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a gwaith cysylltiedig gyda'r holl faterion wedi eu cadw'n ôl ar dir yn Tyn y Coed, Llangefni.
Cyng. Gwyndaf Jones yn tynnu sylw at benderfyniad y Cyngor Tref o wrthwynebiad oherwydd bod y fynedfa ddim yn addas. Adborth gan Aelodau'r Is-bwyllgor fod y fynedfa i'r safle yn rhu gul a bod rhaid cael blaenoriaeth trafnidiaeth. Trigolion hefyd yn gwrthwynebu oherwydd nifer y tai.
Aelod yn awgrymu gwahodd Cyng. Gwyndaf Jones, fel Sylwedydd ac i Gynghori ar Is-bwyllgor Cynllunio. Cadeirydd yn esbonio bydd cyfle yn ystod y Cyfarfod Blynyddol i Aelodau gael eu penodi ar Is-bwyllgorau'r Cyngor Tref.
Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan fod yr Is-bwyllgor Cynllunio ddim digon cryf mewn nifer ac yn awgrymu cryfhau'r rhif o Aelodau, oherwydd bod gwendid fel mae yn sefyll rŵan.
Cadeirydd yn adrodd bydd trafodaeth ymhellach am hyn yng Nghyfarfod Blynyddol 11.05.2020. **PENDERFYNWYD** rhoi hawl i Cyng. Gwyndaf Jones fynychu'r Is-bwyllgor fel Ymwelydd.
PENDERFYNWYD YMHELLACH derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

19/260 I DDERBYN ARGYMHELLION IS-BWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL

1 **Cyfarfod 13.01.2020** - Cyng. J. Egryn Lewis yn tynnu sylw Aelodau at Ddogfen Precept Drafft 2020/2021 a gafwyd ei ddosbarthu i'r Aelodau yn ystod y Cyfarfod a gofynnwyd am y copïau yn ôl ar y diwedd. Clerc yn esbonio fod y ddogfen ar gael yn y Swyddfa i'r Aelodau i'w arolygu, ac oherwydd materion ariannol sensitif, a'r Ddogfen ddim yn derfynol ac yn gyfrinachol i'r Swyddfa, nid oedd yn bosib gadael i'r Aelodau fynd a chopi o'r Swyddfa. Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan ei fod ddim yn derbyn fod hyn yn weithrediad cywir. Clerc yn ymateb ei fod wedi derbyn cyngor a'i fod wedi gweithredu yn gywir gan mai Drafft oedd y ddogfen.
Caerdydd yn tynnu sylw'r Aelodau, os oes ganddynt unrhyw fater i'w drafod o flaen cyfarfodydd Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol, bod yn angenrheidiol rhoi gwybod i'r Swyddfa cyn 12.00 hanner dydd, ar ddiwrnod y Cyfarfod, i roi cyfle i'r Swyddfa baratoi.
Cyng. Lewis yn awyddus fod Ffeil Anfonebau ar gael i'w chyflwyno i'r Cyfarfod Llawn.
Clerc yn esbonio fod y Ffeil yn y Swyddfa i'w arolygu ac am edrych i mewn i sefyllfa GDPR ynglŷn â hyn.

2 **Cyfarfod 29.01.2020 –** Dim trafodaeth.

3 **Cyfraniadau 2019/2020 –** Cyng. John Lee yn edrych ar y Rhestr Cyfraniadau sydd yn cynnwys Elusennau Lleol a Cenedlaethol ac yn tynnu sylw at bolisi'r Cyngor Tref nifer o flynyddoedd yn ôl, yn cymeradwyo ystyried Elusennau Lleol yn unig. Dim Trafodaeth.
Cadeirydd yn tynnu sylw at Gais Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned-Llangefni, ac yn cadarnhau fod angen mwy o wybodaeth cyn penderfynu rhoi cyfraniad.
PENDERFYNWYD derbyn argymhellion yr Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol 29.01.2020 o Restr Cyfraniadau 2019/2020.

PARHAD
19/260

Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio i dderbyn Cofnodion 13.01.2020 a 29.01.2020 fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.

19/261 I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBION Y MAER

Cyfarfod – Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn y Dref – 17.01.2020 - Cadeirydd yn adrodd fod Cyfarfod wedi ei gynnal rhwng yr Heddlu, Cynrychiolaeth o bob Adran o'r Cyngor Sir ynghyd a Mudiadau eraill y dref, i edrych ar y broblem o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Llangefni. Cofnodion o'r Cyfarfod ar gael yn y Swyddfa.
Yn dilyn trafodaeth, Cadeirydd yn adrodd pryder yr Heddlu fod trigolion ddim yn galw Llinell 101 i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiad, ac yn annog fod hyn yn cael ei wneud.
Cyng. Dylan Rees yn datgan ei fod am anfon Datganiad i'r Wasg i'r Clerc anfon ymlaen i'r Aelodau, sydd yn cyfeirio at yr uchod. **Derbyn.**
Cyfarfod nesaf o'r Grŵp uchod i'w gynnal yn ystod Mis Ebrill 2020.
Cyng. Jamie Jones yn adrodd ei fod yn hyrwyddo pobl ifanc i ymwneud a Pel Droed Dan Do ynghyd a chwaraeon eraill. Cyng. Jones yn holi am sefyllfa'r Clwb Bocsio a'r Cae Criced.
Cadeirydd yn datgan fod dim symudiad wedi bod a gobeithio adrodd yn ôl yn y dyfodol agos. Cadeirydd yn arwain yr Aelodau trwy waith Grŵp MPCT Bangor, sydd yn rhoi disgyblaeth i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a mynd ymlaen i gael gwaith a bod pobl ifanc Llangefni angen lle i gyfarfod o fewn y dref.

Cadeirydd yn llongyfarch Cyng. Jamie Jones ar ei Swydd Newydd a dymuno'r gorau iddo gyda'i Gynlluniau i'r dyfodol.

Cyng. James Jones yn gadael y Cyfarfod.

19/262 MATERION YN CODI GAN AELODAU – Dim.

19/263 ADRODDIAD Y CLERC

1 **Swyddfa'r Cyngor Tref -** Clerc yn arwain yr Aelodau trwy gefndir derbyn Rhybudd gan berchennog newydd Neuadd y Sir, i'r Cyngor Tref adael y safle cyn diwedd Mis Chwefror 2020. Oherwydd hyn, bu edrych ar leoliad arall i Swyddfa'r Cyngor Tref. Clerc yn adrodd fod Cynllun Busnes wedi ei baratoi ar ran y Cyngor Tref wedi bod yn llwyddiannus ar gyfer pryniant Adeilad i ail-leoli'r Cyngor o fewn y dref. Clerc yn adrodd ymhellach fod y "Public Works Loan Board", Llywodraeth Cymru, wedi cymeradwyo'r Cais a bod y pryniant yn symud ymlaen ac yn disgwyl i'r Cyfreithwyr gyfathrebu.
Cyng. Richard Parry yn llongyfarch y Clerc am ei holl waith i ddod a phethau at ei gilydd ynglŷn â'r uchod.

2 **Oriau Agored y Swyddfa –** Clerc yn adrodd, oherwydd amgylchiadau presennol a phwysa gwaith y Swyddfa, nid ydyw yn gyfleus i'r cyhoedd/Aelodau alw i'r Swyddfa cyn 10.30y.b., oherwydd hyn, bydd oriau agored y Swyddfa yn newid i fod ar agor rhwng 10.30y.b. hyd at 2.30y.h. Y Clerc yn datgan mai rhan-amser ydyw Staff y Swyddfa ac felly nid ydyw yn bosib i'r Swyddfa fod ar agor yn barhaol. Bydd yr oriau uchod yn cael eu harddangos ar Safle We'r Cyngor Tref. **Derbyn.**
Clerc yn gofyn i'r Aelodau roi gwybod i'r Swyddfa o flaen llaw, unai trwy ffonio neu anfon e-bost, os ydynt angen trafod unrhyw fater gyda'r Clerc neu'r Cymorthydd.
Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan siom fod Cwmni Chief Properties Ltd. wedi anfon Rhybudd i'r Cyngor Tref i adael Neuadd y Sir o fewn y mis nesaf pan fod Les mewn lle ac yn awgrymu posibilrwydd o gael lawndal am bob blwyddyn at ddiwedd y Les. Dim trafodaeth.

19/264 ADRODDIAD PWYLLGORAU ALLANOL

1 **Cyfarfod Fforwm Cyswllt – 22.01.2020 -** Dim trafodaeth.

2 **Un Llais Cymru – Cyfarfod Pwyllgor Ardal – 23.01.2020** - Maer yn datgan fod dim llawer

PARHAD
19/264

i adrodd yn ôl. Cyflwyniad gan Ynni Gwyrdd Bethesda, sydd am anfon mwy o wybodaeth i'r Swyddfa. Cyflwyniad ar gynnwys Safle We Cynghorau Thref a Chymuned.

3 **Arolygaeth Cynllunio a Chymorth Cynllunio Cymru – 24.01.2020 -** Cyng. Gwyndaf Jones yn diolch am y cyfle i fynychu'r uchod. Adborth ar lafar gan Cyng. Jones gyda nodiadau ysgrifenedig i ddilyn. Y prif bwyntiau i'w hystyried, fel a ganlyn :

- I ofyn i Ddatblygwyr beth sydd ar gael i'r Dref o dan "Community Benefit";
- Cael arian allan o'r datblygiadau ar gyfer y Dref;
- Trafod beth fydd yn cael eu rhoi yn ol i'r Cynghorau.

Cadeirydd yn diolch i Cyng. Jones am ei adborth llawn gwybodaeth.

Aelodau yn tynnu sylw at y Cais am 130 (Ystâd Parc y Coed) o dai ar ymylon y Dref ac yn holi os oes Canllawiau mewn lle gan Gyngor Sir Ynys Mon ar gyfer lle chwarae i blant o fewn y datblygiad a beth ydyw'r trothwy ?

19/265 **CYLLID**

1 **Mantolen Ariannol Mis Ionawr 2020 -** Aelod yn tynnu sylw at Daliad P289 - Adroddiad Hampton Lewis - Arolwg Adeilad. Cytunwyd fod yr Adroddiad yn rhesymol o bris ac i'w chanmol. Clerc yn datgan fod copi o'r Adroddiad ar gael yn y Swyddfa i'w arolygu. Yn dilyn yr uchod, Clerc yn gofyn am ganiatâd yr Aelodau i holi perchennog darn o dir cyfagos i'r Adeilad a gafwyd ei arolygu, pe bai a diddordeb mewn gwerthu'r tir tu cefn. Cyng. J. Egryn Lewis yn cynnig rhoi'r hawl i'r Clerc symud ymlaen i holi am y tir. **PENDERFYNWYD** derbyn y cynnig.
Cyng. Christine Roberts yn Cynnig a Cyng. J. Huw Owen yn Eilio i dderbyn Mantolen Ariannol Mis Ionawr. **PENDERFYNWYD** derbyn y Fantolen Ariannol.

2 **Praesept 2020/2021** - Clerc yn arwain yr Aelodau trwy ddogfen Praesept 2020/2021, ac yn ateb cwestiynau ar y canlynol :
Eitem 5 - Costau Safle Newydd - Gwariant Disgwyliedig;
Eitem 12 - Safle Cae Criced – Rhagweld Costau Cyfreithiol;
Eitem 14 - Safle'r Orsedd Ysbyty Cefni - Cais i drosglwyddo'r tir - Dogfen "Heads of Terms" i'w chwblhau, dim gohebiaeth ers chwe mis gan Wasanaeth Iechyd. Oherwydd bod Grant mewn lle ar gyfer y tir gwyrdd uchod, Cyng. J. Egryn Lewis yn awgrymu ysgrifennu at Gyngor Sir Ynys Mon i egluro i gael estyniad i gadw'r Grant yn fyw. **Derbyn.**
Eitem 19 - Awdit – Taliad ar gyfer Archwiliad Mewnol 2019/2020.
Clerc yn adrodd yn bellach fod ffigwr Praesept 2020/2021 - £175,183.00, wedi cynyddu 10% eleni oherwydd pryniant Adeilad i ail-leoli'r Cyngor Tref, £8.00 y flwyddyn i bob eiddo. Clerc yn datgan fod y Ffurflen Praesept 2020/2021 i'w chyflwyno i Gyngor Sir Ynys Mon erbyn 7fed o Chwefror 2020, a'r Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol 13.01.2020 wedi derbyn y ffigwr uchod.
Cyng. Richard Parry yn Cynnig a Cyng. John Lee yn Eilio i dderbyn ffigwr y Praesept 2020/2021. **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i dderbyn yr uchod.

19/266 **ADRODDIAD MISOL CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyng. Dylan Rees yn adrodd ar y canlynol :

- Comisiwn yr Heddlu yn codi'r Praesept 4.5%, sef 24c yr wythnos – Eiddo Band D.

Aelodau yn pryderu fod dim digon o Swyddogion Heddlu ar gael i Ynys Mon. Cyng. Rees am drafod hyn yn Cyfarfod nesaf Panel Liaison N.W.P. & C.

8.05y.h. Cyng. Dylan Rees yn gadael y Cyfarfod.

19/267 GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD

1 **Llythyr Cyngor Sir Ynys Mon – Meredith Poorhouse – 17.01.2020 –** Cadeirydd yn arwain yr Aelodau trwy gefndir Prosiect Hamper Nadolig 2019 ar gyfer unigolion a theuluoedd sydd angen bwyd er mwyn paratoi cinio Nadolig. Cadeirydd yn cadarnhau i Cyng. Christine Roberts fod y prosiect yn cefnogi trigolion Llangefni. Cyng. Richard Parry yn datgan tristwch fod amser o lymder yn cael effaith ar drigolion y dref.

2 **Cymorth i Bencampwyr Iaith – Cyngor Sir Ynys Mon – 13.01.2020 –** Dim trafodaeth.

19/268 GOHEBIAETH : ER GWYBODAETH

1 **Un Llais Cymru – Materion wedi eu hanfon trwy e-bost Mis Ionawr 2020 –** Derbyn. Cadeirydd yn datgan fod gan Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru ddim safle addas i gynnal Cyfarfodydd lleol ar hyn o bryd. Gobeithio cynnig ystafell iddynt logi gan y Cyngor Tref pan fydd pryniant safle newydd wedi ei gwblhau.

2 **Materion Eraill - Wedi eu hanfon trwy e-bost Mis Ionawr 2020 -** Derbyn.

19/269 I YSTYRIED UNRHYW FATER BRYS GAN Y MAER

1 **Ail-leoli Swyddfa'r Cyngor Tref -** Cadeirydd yn gobeithio symud i leoliad newydd mor fuan ag y bo modd.

2 **Clwb Pel Droed Llangefni -** Cyng. John Lee yn tynnu sylw fod y Clwb erbyn hyn wedi ei gofrestru fel Cwmni Cyfyngedig (Limited Company), ac yn holi beth ydyw'r oblygiadau o hyn. Cyng. Huw Owen yn esbonio fod hyn yn rhoi cyfrifoldeb cyfreithiol i'r Clwb a dim i unigolion os bydd unrhyw ddyled a.y.b. Clerc yn cadarnhau fod Cyfreithiwr y Cyngor Tref wedi paratoi Les i adlewyrchu hyn. **Derbyn.**

19/270 DYDDIAD Y CYFARFOD - Nos Lun 2ail o Fawrth 2020.

CYNG. MARGARET THOMAS
CADEIRYDD